**MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU**

**RHEOLAU 2024**

# CYSTADLEUAETH ARLOESI BUSNES GWLEDIG

**CYMHWYSTER**

Rhaid i'r cystadleuydd fod yn 18 oed neu hŷn ac o dan 30 oed neu iau ar 1 Medi 2024 ac yn aelod llawn o unrhyw Glwb yn Ffederasiwn CFfI Cymru (rhaid bod dros 28 wedi talu aelodaeth aelod cyswllt).

Bydd gofyn i gystadleuwyr ddangos eu cardiau aelodaeth. Bydd methu â dangos cerdyn aelodaeth dilys (gyda llun) yn arwain at dâl cosb o £10. Ni chaniateir i unrhyw aelod nad yw ei enw wedi'i restru fel aelod cyfredol taledig o'r Ffederasiwn ac na all ddangos cerdyn aelodaeth ar ddechrau'r gystadleuaeth gystadlu.

**TREFN 18-23 oed**
**RHAN 1** – Cynllun Busnes
Ysgrifennwch gynllun busnes ar gyfer prosiect / syniad arallgyfeirio / cyfle o'ch dewis. Nid oes angen rhagamcanion llif arian na chyllidebau.
**RHAN 2** – Cyfweliad
Bydd cystadleuwyr yn cael eu cyfweld ddydd Iau 4ydd o Orffennaf 2024 am 4pm yng Nghanolfan CFfI Cymru ar Faes Sioe Frenhinol Cymru. Bydd panel o Feirniaid, mewn awyrgylch anffurfiol a fyddant yn gofyn cwestiynau am eich prosiect / syniad arallgyfeirio / cyfle. Yn ddelfrydol, cynhelir cyfweliadau wyneb yn wyneb ond gallwn ddarparu cyfweliadau ar-lein os oes angen.

**TREFN 24-30 oed**
**RHAN 1** – Cynllun Busnes a Rhagamcanion Llif Arian
Ysgrifennwch gynllun busnes ar gyfer prosiect / syniad arallgyfeirio / cyfle o'ch dewis a chynhyrchwch ragamcanion llif arian neu gyllidebau ar gyfer pum mlynedd gyntaf eich busnes.
**RHAN 2** – Cyfweliad
Bydd cystadleuwyr yn cael eu cyfweld ddydd Iau 4ydd o Orffennaf 2024 am 4yh yng Nghanolfan CFfI Cymru ar Faes Sioe Frenhinol Cymru. Bydd panel o Feirniaid, mewn awyrgylch anffurfiol a fydd yn gofyn cwestiynau am eich prosiect / syniad arallgyfeirio / cyfle, yn ogystal â'r gyllideb. Yn ddelfrydol, cynhelir cyfweliadau wyneb yn wyneb ond gallwn ddarparu cyfweliadau ar-lein os oes angen.

**CEISIADAU**
Ffurflenni cystadlu i'w cyflwyno i Ganolfan CFfI Cymru erbyn 5.00pm dydd Gwener 28ain o Fehefin 2024. Ni dderbynnir ceisiadau hwyr.

**CYNLLUN MARCIO**

| **Meini prawf beirniadu** | **Pwyntiau** |
|---|---|
| Hyfywedd economaidd | 60 |
| Atebion i gwestiynau penodol yn y cyfweliad | 20 |
| Potensial a thwf hirdymor | 10 |
| Cyflwyno cyflwyniad ysgrifenedig | 10 |

**Gofynnwn i'r beirniaid ystyried:**

• Dealltwriaeth y cystadleuwyr o'u cynllun busnes a'r agweddau ymarferol

• Rhoi adborth cadarnhaol a chyngor adeiladol i bob cystadleuydd

• Chwilio am gynnig busnes sy'n ddichonadwy, ymarferol ac yn gweithio

• Pa adborth sy'n ddichonadwy ar gyfer cyflwyniadau unigol ar ddiwrnod y gystadleuaeth.

**CYFFREDINOL**

Bydd penderfyniad y Beirniaid yn derfynol.

Mae CFfI Cymru yn cadw'r hawl i newid neu ddileu unrhyw rai o'r rheolau uchod.